**Agenda Eitem Rhif 1**

## Argymhellion Cynhadledd Maes Llafur Cytûn

Mewn ymateb i Gymdeithas CYSAG Cymru, CYSAG Sir Ddinbych a'r Awdurdod Addysg Lleol, cytunwyd i ofyn i Gynhadledd Maes Llafur Cytûn Sir Ddinbych benderfynu'n ffurfiol i ohirio'r Adolygiad o'r Maes Llafur Cytûn ar gyfer Sir Ddinbych, y mae'n rhaid yn ôl statud ei adolygu yn ystod 2007, nes derbyn canlyniadau'r Adolygiad Cwriciwlwm Cenedlaethol sydd ar y gweill ar hyn o bryd gan ACCAC.

Yna gellir adolygu Maes Llafur Cytûn Addysg Grefyddol Sir Ddinbych, ar ôl derbyn gwybodaeth lawn am Argymhellion Adolygiad y Cwriciwlwm Cenedlaethol, a'r un pryd ag Awdurdodau Addysg Lleol a CYSAGau eraill a chyda'r cyngor a'r gefnogaeth a allai gael ei gynnig gan ACCAC a CYSAG Cymru.

Golyga'r penderfyniad hwn, pe cai ei fabwysiadu, y byddai Meysydd Llafur Cytûn yng Nghymru yn gweithio i'r un amserlen ar gyfer eu Hadolygu a byddai hynny'n galluogi ACCAC i gynnig canllawiau ac arweiniad addas ac amserol.